16 Ionawr 2025

Annwyl

**ATISN 23201**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 16 Rhagfyr 2024. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

***A fyddai modd derbyn copi o e-byst rhwng swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a Gweinidog y Gymraeg y pryd, Leighton Andrews, sy'n cyfeirio at gyflwyno Safonau Iaith neu Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod rhwng Gorffennaf 2012 a Mawrth 2013?***

**Ein hymateb**

Amgaeaf yr wybodaeth y gofynnwyd amdani ar ffurf 3 llythyr mewn ffeiliau pdf.

Nodaf bod eich cais yn gofyn am wybodaeth o 2012-13. Mae'n bosib bod peth gohebiaeth o'r cyfnod hynny wedi cael eu dileu yn unol â pholisi cadw a dileu cofnodion Llywodraeth Cymru. Mae dogfen *"Amserlenni Cadw a Gwaredu ar gyfer Cofnodion a Gwybodaeth"* Llywodraeth Cymru yn datgan bod e-byst a gohebiaeth Gweinidogol sy'n ymwneud â gweithgarwch busnes o ddydd i ddydd yn cael eu dileu ar ôl 10 mlynedd. Er hynny, mae'r 3 llythyr amgaeedig dal ar systemau Llywodraeth Cymru a dyma'r unig ffeiliau perthnasol rydym wedi dod o hyd iddynt.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir